



Gosber ar Gân


Gŵyl yr Ystwyll

2 Ionawr 2022 am 3.30pm

Choral Evensong

The Festival of the Epiphany

2 January 2022 at 3.30pm



Cadeirlan
Deiniol Sant
ym Mangor

Saint Deiniol's
Cathedral
in Bangor



*Croeso i
Gadeirlan
Deiniol Sant
ym Mangor.*

*Welcome to
Saint
Deiniol's
Cathedral in
Bangor.*



Rydych chi'n sefyll rwan
lle safodd Deiniol bron i
fileniwm a hanner yn ôl.

Yma, yn y flwyddyn
525, bu iddo gynnull o'i
gwmpas gymuned lawn
ffydd, gobaith a chariad,
gan godi o'i chwmpas
ffens gyll—y **bangor**
gwreiddiol—iddi'n gysgod
ac yn noddfa.

Ein gweddi yw y cewch
chwithau, hefyd, eich
cofleidio yma gan yr un
ffydd, gobaith a chariad
a gyhoeddir gennym
heddiw ac sy'n ein
cyfareddu o hyd.

You stand now where
Deiniol stood almost a
millennium and a half ago.

Here, in the year 525, he
gathered around him a
community of faith, hope
and love, and raised
around it a hazel fence—
the original **bangor**—for
shelter and sanctuary.

Our prayer is that you,
too, will be embraced
here by the same faith,
hope and love that we
proclaim and live by
today.

Yn y Gosber At Evensong

Mae i oedfa'r Gosber ar Gân wreiddiau dwfn. Mae'n waddol o fuchedd gweddi y mynachlogydd Benedictaidd, lle roedd treigl oriau'r dydd yn esgor ar weddi ar y cyd. Daw'r ffurf a ddefnyddiwn heddiw o Lyfr Gweddi Gyffredin yr unfed ganrif ar bymtheg, lle cyfunwyd dau o'r oedfaon mynachau hynafol i ffurfio oedfa i'w hoffrymu'n blwyfol ar drefyn dydd, ac mewn cadeirlannau ar gân.

Yn ein Gosber, byddwn yn gwrandao ar lithoedd o'r Hen Destament a'r Newydd, ac yn canu'r ddwy gân hwyrol o'r Efengyl yn ôl Sant Luc – y *Magnificat* (cân am ein hyder yn addewid oesol Duw) a'r *Nunc dimittis* (cân am ein cyflawniad yng ngholeuni oesol Crist). Yn ystod y *Magnificat*, mae aroglarth yn ein neilltuo ni a'r fangre yn sanctaidd yng ngolwg Duw. Mae gweddi ar gân ac ar goedd, a sain yr anthem, yn ein dwyn, galon a meddwl, tuag at Dduw.

Yn ystod ein haddoliad, rydyn ni'n dweud ac yn canu gyda'n gilydd y testun **mewn teip trwm**. Darperir cyfieithiadau o ieithoedd tramor. Mae croeso ichi wneud arwydd o'r Groes pan fydd y geiriau wedi'u marcio ag ✠. Cynigir cyfarwyddiadau eraill (rhuddellau) **mewn teip coch**; os ydych chi'n ei chael hi'n fwy cyfforddus, eisteddwch yn hytrach na sefyll neu benlinio.

Fe'ch gwahoddir i fynd â'r llyfryn adref gyda chi, i fyfrio yn eich amser eich hun ar y geiriau sanctaidd sydd ynddo.

Ceir hysbys a manylion cyswllt yn nhrefn gwasanaethau Cymun Bendigaid ar Gân bore heddiw ac yn ein cylchgrawn, **Buchedd Bangor**.

The service of Choral Evensong has deep roots. It is an inheritance from the prayer life of Benedictine monasteries, where the turning of the hours of the day was marked by communal prayer. The service we know today is from the sixteenth-century Book of Common Prayer, in which two of the ancient monastic observances were combined to form a service to mark the end of the day – and “in quires and places where they sing,” to do so chorally.


At Evensong, we listen to lessons from the Old and New Testaments, and sing the two evening songs from the Gospel According to Saint Luke – the *Magnificat* (a song about our confidence in God's enduring promise) and the *Nunc dimittis* (a song of about our fulfilment in Christ enduring light). During the *Magnificat*, incense marks us and this place as holy in God's sight. Sung and spoken prayer, and the music of an anthem, draw us heart and mind to God.

During our worship, we say and sing together the text **in bold type**. Translations into English are provided from Welsh and other languages. We may make a sign of the Cross at times when the words are marked with ✠. Other directions (rubrics) are offered **in red type**; if you find it more comfortable to sit rather than stand or kneel, please do so.

You are invited to take the booklet away with you, to reflect in your own time on the holy words it contains.

Notices and contact details are included in this morning's Choral Holy Eucharist order of service and in our magazine, **Buchedd Bangor**.

Trefn *Order*



Cynnull *Gathering*

Deisfyiadau *Preces*

Ŵ ✕ O lôr, rho i'n gwefus gân.
R̕ Aed yn bêr hyd y nef ein mawl.

Ŵ ✕ O Dduw, cofleidia'n hadfyd.
R̕ O Grist, dy ras yw'n golud.

Ŵ Gogoniant fo i Dduw Dad, ac i Dduw'r Mab,
ac i Dduw'r Ysbryd Glân,
R̕ Fel yr oedd yn y dechreuad, mae'n awr, a'n fythol y bydd;
yn oes oesoedd. Amen.

Ŵ Molwch yr lôr.
R̕ Addolwn ein Duw.

Cerddoriaeth | Music
Nigel Stark

Translation

Ŵ ✕ O Lord, open thou our lips. R̕ And our mouth shall shew forth thy praise. Ŵ ✕ O God, make speed to save us. R̕ O Lord, make haste to help us. Ŵ Glory be to the Father, and to the Son, and to the Holy Ghost. R̕ As it was in the beginning, is now, and ever shall be, world without end. Amen. Ŵ Praise ye the Lord. R̕ The Lord's name be praised.

Brawddeg *Sentence*

"Syrthiasant i lawr a'i addoli, ac offrymasant iddo anrhegion, aur a thus a myrr."

Translation

"They knelt down and paid him homage. Then they offered him gifts of gold, frankincense, and myrrh."



Tua Bethlem dref
awn yn fintai gref
ac addolwn ef.

Gyda'r llwythau
unwn ninnau
ar y llwybrau at y crud.
Tua'r preseb awn
gyda chalon lawn
a phenlinio wnawn.

I fachgennyn Mair,
y tragwyddol Air
yn y gwellt a'r gwair,
dygwn roddion:
serch y galon,
aur anrhegion, thus a myrr.
Tua Bethlem dref
awn yn fin-tau gref
ac addolwn ef.

Translation

Toward Bethlehem town we go in a crowd and we worship him. Go to the stable with a heart so full and we'll kneel down. With a great throng we too come along on the paths that go to him; to the crib, everyone. / To Mary's little son, to the eternal Word, gifts we bring. Love in our hearts singing, gifts of gold, frankincense and myrrh. Toward Bethlehem town we go in a crowd and we worship him.

Geiriau | Words

Will Ifan (1883-1968)

Cerddoriaeth | Music

"Tua Bethlem Dref"

David Evans (1874-1948)

Eisteddwn | We sit

Gair Word

Salmyddiaeth Psalmody

Praise the Lord, O Jerusalem; sing praises to thy God, O Zion.

For he hath made fast the bars of thy gates, and hath blessed thy children within thee.

He maketh peace in thy borders, and filleth thee with the flour of wheat.

He sendeth forth his commandment on earth, and his word runneth very swiftly.

He giveth snow like wool, and scattereth the hoarfrost like ashes.

He casteth forth his ice like grains: at his frost waters cease to flow.

He sendeth out his word, and melteth them: he bloweth with his wind, and the waters flow again.

He showeth his word unto Jacob, his statutes and ordinances unto Israel.

He hath not dealt so with other nations; neither have they knowledge of his laws. Praise ye the Lord.

Codwn ar ein traed | We stand

Glory be to the Father, and to the Son: and to the Holy Ghost; as it was in the beginning, is now and ever shall be; world without end. Amen.

Salm | Psalm 147:12-20

Cerddoriaeth | Music

Charles Villiers Stanford (1852-1924)

Eisteddwn | We sit

Llith Lesson

Yma y mae yn dechrau trydedd pennod Epistol yr Apostol Paul at yr Effesiaid.

Garedigion: Yr wyf fi, Paul, carcharor Crist Iesu er eich mwyn chwi'r Cenhedloedd, yn offrymu fy ngweddi. Y mae'n rhaid eich bod wedi clywed am gynllun gras Duw, y gras sydd wedi ei roi i mi er eich lles chwi: sef i'r dirgelwch gael ei hysbysu i mi trwy ddatguddiad. Yr wyf eisoes wedi ysgrifennu'n fyr am hyn, ac o'i ddarllen gallwch ddeall fy nirdadaeth o ddirgelwch Crist. Yn y cenedlaethau gynt, ni chafodd y dirgelwch hwn mo'i hysbysu i blant dynion, fel y mae yn awr wedi ei ddatguddio gan Ysbryd Duw i'w apostolion sanctaidd a'i broffwydi. Dyma'r dirgelwch: bod y Cenhedloedd, ynghyd â'r Iddewon, yn gydetifeddion, yn gydaelodau o'r corff, ac yn gydgyfranogion o'r addewid yng Nghrist Iesu trwy'r Efengyl. Dyma'r Efengyl y deuthum i yn weinidog iddi yn ôl rhodd gras Duw, a roddwyd i mi trwy weithrediad ei allu ef. I mi, y llai na'r lleiaf o'r holl saint, y rhoddwyd y rhodd raslon hon, i bregethu i'r Cenhedloedd anchwiliadwy olud Crist, ac i ddwyn i'r golau gynllun y dirgelwch a fu'n guddiedig ers oesoedd yn Nuw, Creawdwr pob peth, er mwyn i ysblander amryfal ddoethineb Duw gael ei hysbysu yn awr, trwy'r eglwys, i'r tywysogaethau a'r awdurdodau yn y nefolion leoedd. Y mae hyn yn unol â'r arfaeth dragwyddol a gyflawnodd yng Nghrist Iesu ein Harglwydd. Ynddo ef, a thrwy ffydd ynddo, yr ydym yn cael dod at Dduw yn eofn a hyderus.

Yma y terfyn y Llith cyntaf.

Translation

Dearly beloved: I Paul am a prisoner for Christ Jesus for the sake of you Gentiles. Surely you have already heard of the commission of God's grace that was given to me for you, how the mystery was made known to me by revelation, as I wrote above in a few words, a reading of which will enable you to perceive my understanding of the mystery of Christ. In former generations this mystery was not made known to humankind, as it has now been revealed to his holy apostles and prophets by the Spirit: that is, the Gentiles have become fellow-heirs, members of the same body, and sharers in the promise in Christ Jesus through the gospel. Of this gospel I have become a servant according to the gift of God's grace that was given to me by the working of his power. Although I am the very least of all the saints, this grace was given to me to bring to the Gentiles the news of the boundless riches of Christ, and to make everyone see what is the plan of the mystery hidden for ages in God who created all things; so that through the church the wisdom of God in its rich variety might now be made known to the rulers and authorities in the heavenly places. This was in accordance with the eternal purpose that he has carried out in Christ Jesus our Lord, in whom we have access to God in boldness and confidence through faith in him

Effesiaid | Ephesians 3:1-12

Codwn ar ein traed | We stand

Magnificat



My soul doth magnify the Lord. And my spirit hath rejoiced in God my Saviour. For he hath regarded the lowliness of his handmaiden; for behold, from henceforth, all generations shall call me blessed. For he that is mighty hath magnified me: and holy is his Name. And his mercy is on them that fear him: throughout all generations. He hath shewed strength with his arm; he hath scattered the proud in the imagination of their hearts. He hath put down the mighty from their seat, and hath exalted the humble and meek. He hath filled the hungry with good things, and the rich he hath sent empty away. He remembering his mercy hath holpen his servant Israel, as he promised to our forefathers, Abraham and his seed for ever. Glory be to the Father, and to the Son, and to the Holy Ghost, as it was in the beginning, is now, and ever shall be, world without end. Amen.

Cerddoriaeth | Music

Magnificat quartii toni, Francesco Feroci (1673-1750)

Eisteddwn | We sit

Llith Lesson

Here begins the seventh verse of the second chapter of the Gospel according to Saint Matthew.

At that time: Herod secretly called for the wise men and learned from them the exact time when the star had appeared. Then he sent them to Bethlehem, saying, "Go and search diligently for the child; and when you have found him, bring me word so that I may also go and pay him homage." When they had heard the king, they set out; and there, ahead of them, went the star that they had seen at its rising, until it stopped over the place where the child was. When they saw that the star had stopped, they were overwhelmed with joy. On entering the house, they saw the child with Mary his mother; and they knelt down and paid him homage. Then, opening their treasure-chests, they offered him gifts of gold, frankincense, and myrrh. And having been warned in a dream not to return to Herod, they left for their own country by another road. Now after they had left, an angel of the Lord appeared to Joseph in a dream and said, "Get up, take the child and his mother, and flee to Egypt, and remain there until I tell you; for Herod is

about to search for the child, to destroy him.” Then Joseph got up, took the child and his mother by night, and went to Egypt, and remained there until the death of Herod. This was to fulfil what had been spoken by the Lord through the prophet, “Out of Egypt I have called my son.” When Herod saw that he had been tricked by the wise men, he was infuriated, and he sent and killed all the children in and around Bethlehem who were two years old or under, according to the time that he had learned from the wise men. Then was fulfilled what had been spoken through the prophet Jeremiah: “A voice was heard in Ramah, wailing and loud lamentation, Rachel weeping for her children; she refused to be consoled, because they are no more.” When Herod died, an angel of the Lord suddenly appeared in a dream to Joseph in Egypt and said, “Get up, take the child and his mother, and go to the land of Israel, for those who were seeking the child’s life are dead.” Then Joseph got up, took the child and his mother, and went to the land of Israel. But when he heard that Archelaus was ruling over Judea in place of his father Herod, he was afraid to go there. And after being warned in a dream, he went away to the district of Galilee. There he made his home in a town called Nazareth, so that what had been spoken through the prophets might be fulfilled, “He will be called a Nazorean.”

Here ends the second lesson.

Mathew | Matthew 2:7-23

Codwn ar ein traed | We stand

Nunc dimittis



Lord, now lettest thou thy servant depart in peace according to thy word. For mine eyes have seen thy salvation, which thou hast prepared before the face of all people; to be a light to lighten the Gentiles and to be the glory of thy people Israel. Glory be to the Father, and to the Son, and to the Holy Ghost, as it was in the beginning, is now, and ever shall be, world without end. Amen.

Cerddoriaeth | Music

Plaengan, tôn iv | Plainchant, tone iv

Parhawn ar ein traed, a throi i wynebu'r Dwyrain | We stand, turning to face East



Credo'r Apostolion **Apostles' Creed**

I believe in God

the Father Almighty,

Maker of heaven and earth:

and in Jesus Christ his only Son our Lord,

who was conceived by the Holy Ghost,

born of the Virgin Mary,

suffered under Pontius Pilate,

was crucified, dead, and buried;

he descended into hell;

the third day he rose again from the dead,

he ascended into heaven,

and sitteth on the right hand of God the Father Almighty;

from thence he shall come to judge

the quick and the dead.

I believe in the Holy Ghost;

the holy catholic Church;

the communion of saints;

the forgiveness of sins;

✠ the Resurrection of the body,

and the Life everlasting.

Amen.

Parhawn ar ein traed, gan droi o'r Dwyrain | We stand, turning from the East

Gweddiau *Prayers*

Litani Leiaf *Lesser Litany*

The Lord be with you.
And with thy spirit.

Let us pray.

Penliniwn neu eisteddwn | We kneel or sit

Lord, have mercy upon us.
Christ, have mercy upon us.
Lord, have mercy upon us.

Our Father, who art in heaven,
Hallowed be thy Name,
Thy kingdom come,
Thy will be done, in earth as it is in heaven.
Give us this day our daily bread;
And forgive us our trespasses,
As we forgive those who trespass against us;
And lead us not into temptation,
But deliver us from evil.
Amen.

O Lord, shew thy mercy upon us;
And grant us thy salvation.

O Lord, save the Queen;
And mercifully hear us when we call upon thee.

Endue thy ministers with righteousness;
And make thy chosen people joyful.

O Lord, save thy people;
And bless thine inheritance.

Give peace in our time, O Lord;
Because there is none other that fighteth for us,
but only thou, O God.

O God, make clean our hearts within us;
And take not thy Holy Spirit from us.

O Dduw graslon, a amlygaist dy unig Fab i bobloedd y ddaear trwy arweiniad seren i fod yn oleuni i'r holl genhedloedd: arwain ni, sy'n dy adnabod yn awr drwy ffydd, i'th bresenoldeb sanctaidd lle y cawn ganfod dy ogoniant wyneb yn wyneb; trwy'r un Iesu Grist ein Gwardedwr. Amen.

O God, from whom all holy desires, all good counsels, and all just works do proceed; give unto thy servants that peace which the world cannot give; that our hearts may be set to obey thy commandments, and also that by thee, we, being defended from the fear of our enemies, may pass our time in rest and quietness; through the merits of Jesus Christ our Saviour. Amen.

L ighten our darkness, we beseech thee, O Lord; and by thy great mercy defend us from all perils and dangers of this night; for the love of thy only Son, our Saviour, Jesus Christ. Amen.

Translation

Gracious God, who by the leading of a star manifested your only Son to the peoples of the earth to be a light to all nations: mercifully grant that we, who know you now by faith, may at last behold your glory face to face; through the same Jesus Christ our Saviour. Amen.

Cerddoriaeth | Music

Nigel Stark

Eisteddwn | We sit

Anthem

Unawdydd | Soloist

Three Kings from Persian lands afar
to Jordan follow the pointing star:
and this the quest of the travellers three,
where the new-born King of the Jews may be.
Full royal gifts they bear for the King;
gold, incense, myrrh are their offering.

The star shines out with a steadfast ray
the kings to Bethlehem make their way,
and there in worship they bend the knee,
as Mary's child in her lap they see;
their royal gifts they show to the King;
gold, incense, myrrh are their offering.

Thou Child of man, lo, to Bethlehem
the Kings are travelling, travel with them!
The star of mercy, the star of grace,
shall lead thy heart to its resting place.
Gold, incense, myrrh thou canst not bring;
offer thy heart to the infant King.

Mor ddisglair ydyw'r Seren Ddydd!

Côr | Choir

Per wreiddyn Jesse'n gyflawn sydd
o rês a phur wirionedd.

Brenhinol hâd – y Gair yn gnawd;

fy Mhrïod ydyw, a fy Mrawd –

fy Nuw – fy llawn ddigonedd.

Hawddgar, hawddgar, heb ei gymar;

uchel, isel; ei drysorau,

moroedd ydynt, heb geulanau.

Translation

How bright is the Daystar! The root of Jesse full of grace and pure truth. Royal seed – the Word made flesh; it is my Bride, and my Brother – my God – my fullness. Beautiful, approachable, without equal; high, low; his treasures, they are seas without a shore.

Geiriau | Words

Peter Cornelius (1824-1874)

Cyfieithiad o'r Almaeneg | Translation from the German

Herbert Newell Bate (1871-1941)

Geiriau Cymraeg | Welsh-language words

Ieuan Gwyllt (John Roberts, 1822-1877)

Cerddoriaeth | Music

Philipp Nicolai (1556-1608), Peter Cornelius (1824-1874),
Ivor Atkins (1869-1953)

Penliniwn neu eisteddwn | We kneel or sit

Gweddïau Prayers

Ceir gweddïau | Prayers are said

Ar derfyn y gweddïau | The prayers conclude

Rhagflaena ni, O Dduw, â'th ragorol ras, a hyrwydda ni â'th barhaus gymorth, fel, yn ein holl weithredoedd o'u cychwyn i'w cwblhau ynot ti, y gogoneddwn dy Enw sanctaidd, a chael o'r diwedd, gan dy drugaredd, lawnder bywyd; trwy Iesu Grist ein Gwaredwr.

Amen.

Translation

Go before us, O God, with thy most gracious favour, and further us with thy continual help; that in all our works, begun, continued, and ended in thee, we may glorify thy holy Name, and finally by thy mercy obtain the fullness of life; through Jesus Christ our Saviour. Amen.


**The grace of our Lord Jesus Christ,
and the love of God,
and the fellowship of the Holy Ghost,
be with us all evermore.**

Amen.

Codwn ar ein traed | We stand

Ymadael *Departing*

Emyn **Hymn**



Bethlehem, of noblest cities
none can once with thee compare;
thou alone the Lord from heaven
didst for us incarnate bear.

Fairer than the sun at morning
was the star that told his birth;
to the lands their God announcing,
seen in fleshly form on earth.

By its lambent beauty guided
see the eastern kings appear;
see them bend, their gifts to offer,
gifts of incense, gold and myrrh.

Solemn things of mystic meaning:
incense doth the God disclose,
gold a royal child proclaimeth,
myrrh a future tomb foreshows.



**Holy Jesu, in thy brightness
to the Gentile world displayed,
with the Father and the Spirit
endless praise to thee be paid.**

Geiriau | Words

Prudentius (348-410)

Cyfieithiad | Translation

Edward Caswall (1814-1878)

Cerddoriaeth | Music

“Stuttgart”

o | from Harmonia Sacra Gotha (1715)

Parhawn ar ein traed | We stand

Bendith Blessing

Bydded i Grist,
a gasglodd yn un bopeth daearol a nefol,
trwy gymryd ein cnawd ni,
eich llenwi â'i lawenydd a'i dangnefedd;
a bendith Duw hollalluog,
y Tad, ✠ y Mab, a'r Ysbryd Glân,
a fo yn eich plith ac a drigo gyda chwi yn wastad.

Amen.

Translation

*Christ, who by taking our flesh, gathered into
one all things earthly and heavenly, fill you
with his joy and peace; and the blessing of
God Almighty, the Father, the Son and the Holy
Ghost, be among you and remain with you
always. Amen.*

Gollyngiad Dismissal

Ŵ The Lord be with you.

R̄ And with thy spirit.

Ŵ Let us bless the Lord.

R̄ Thanks be to God.

Cerddoriaeth | Music

Edward Woodall Naylor (1867-1934)

Parhawn ar ein traed hyd nes i'r gweinidogion ymadael | We remain standing until
the ministers have departed

Offrymddarn ar yr organ | Organ voluntary

Marche des Rois Mages, Théodore Dubois (1837-1924)

Cadeirlan ac Eglwys Archesgobol Deiniol Sant ym Mangor

Rhif elusen 1158340

Rhagofalon Cofid

Mae'n ofyniad cyfreithiol gwisgo gorchudd wyneb. Mae'r gofyniad yn gymwys i bawb 11 oed a throsodd onibai bod gennych reswm.

Rydyn ni wrth ein bodd bod pawb bellach yn cael canu, ond gofynnir i bawb heb law'r Côr ganu y tu ôl i'w gorchudd wyneb.

Fe'ch gwahoddir i ddarparu manylion Profi Olrhain Amddiifyn. Ceir codau QR ger y drysau.

Byddwch yn ystyriol a pharchus tuag at eraill, gan gadw pellter priodol. Mae'r seddi yn yr eiliau yn cynnig mwy o le i ymbellhau.

Diogelu

Mae diogelu plant ac oedolion sydd mewn perygl yn hanfodol, ac rydym wedi ymrwymo i feithrin amgylchedd lle mae pawb yn gallu addoli a chymryd rhan ym mywyd Cadeirlan Deiniol Sant yn ddiogel. Os oes gennych unrhyw bryderon, codwch nhw ar unwaith gydag aelod o dîm y Gadeirlan.

Hygyrchedd

Mae dolen glyw ar waith – gosodwch gymhorthion clyw i'r lleoliad T.

Mae copiâu print bras o'r llyfryn hwn ar gael gan y stiwardiaid.

Mae tai bach ym mhen dwyreiniol y Gadeirlan, trwy'r drws i'r chwith o'r sgrin y Cwîr.

Os bydd angen i ni adael y Gadeirlan mewn argyfwng, arhoswch ar eich heistedd a dilynwch gyfarwyddiadau'r stiwardiaid.

Cynaliadwyedd a chaniatâd

Rydym yn defnyddio papur sydd wedi ei ailgylchu 100% a'i gynhyrchu â charbon deuocsid isel.

Caiff rhai o'n gwasanaethau'n eu ffurfio ar Facebook o gamera ym mhen dwyreiniol Corff yr Eglwys sy'n wynebu'r dwyrain, ac mae'r recordiad ar gael wedi hynny ar dudalen Facebook y Gadeirlan. Efallai y bydd ffotograffydd swyddogol ar ddyletswydd. Mae eich presenoldeb yn gyfystyr â'ch caniatâd i gael eich cynnwys mewn unrhyw ffilmio, tynnu lluniau, recordio sain neu ddarlledu. Os nad ydych am i ffotograff ohonoch chi neu blentyn yn eich gofal gael ei ddefnyddio gan y Gadeirlan, siaradwch ag aelod o dîm y Gadeirlan.

Cydnabyddiaethau

Atgynhyrchir deunydd yn y drefn hon o wasanaeth o dan CLL 280874. Daw'r drefn a'i chynnwys o **Llyfr Gweddî Gyffredin (1662)**. Mae'r llithoedd a'r salmyddiaeth Gymraeg yn seiliedig ar **The New Revised Standard Version of the Bible** ac **Y Beibl Cymraeg Newydd: Argraffiad Diwygiedig**.

Ar y clawr ceir rhan o allor gan arlunydd o Napoli dan ddylanwad Giotto (fl. 1340au) yn Amgueddfa'r Met.

The Cathedral & Metropolitan Church of Saint Deiniol in Bangor

Charity number 1158340

Covid precautions

It is a legal requirement to wear a face covering. The requirement applies to everyone aged 11 and over, unless you have a reason.

We are delighted that all are now permitted to sing, but we ask that all except the Choir sing behind their face covering.

You are invited to provide Test, Trace, Protect details by completing a form or scanning a QR code near the doorways.

Please be mindful and respectful of others, maintaining an appropriate distance. The seating in the aisles provides space for greater distancing.

Safeguarding

Safeguarding children and adults at risk is vital, and we are committed to fostering an environment where everyone is able to worship and participate in the life of Saint Deiniol's Cathedral in safety. If you have any concerns, please raise them immediately with a member of the Cathedral team.

Accessibility

A hearing loop is in use – please set hearing aids to the T setting.

Large print copies of this booklet are available from the stewards.

Lavatories are located at the east end of the Cathedral, through the door to the left of the Quire screen.

If we need to evacuate the Cathedral in an emergency, please remain seated and follow the directions of the stewards.

Sustainability and permissions

We use 100% recycled, low carbon dioxide paper.

Some of our services are streamed on Facebook from a camera at the east end of the Nave facing east, and the recording made available thereafter on the Cathedral's Facebook page. An official photographer may be on duty. Your attendance constitutes your consent to be included in any filming, photographing, audio recording or broadcast. If you do not wish a photograph of you or a child in your care to be used by the Cathedral, please speak to a member of the Cathedral team.

Acknowledgements

Material in this order of service is reproduced under the CLL 280874. The form and content of the service are taken from **The Book of Common Prayer (1662)**. The lessons are based on **The New Revised Standard Version of the Bible** and **Y Beibl Cymraeg Newydd: Argraffiad Diwygiedig**.

The cover image is part of an altarpiece by a Neapolitan artist influenced by Giotto (fl. 1340s), at the Met Museum.